Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Sut allwn ni fyw'n gynaliadwy?

| | |
|---|---|
| **Cyfnod allweddol/Grŵp oed** | **CA2/3/4** |
| **Hyd y gweithgaredd** | **15 – 30 munud** |
| **Lleoliad** | **Y tu mewn neu'r tu allan** |

## Cyd-destun

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw mynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru. Mae hyn yn golygu gofalu am yr awyr, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd er mwyn gwella lles Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar y ffyrdd amrywiol y gallwn ni fyw'n gynaliadwy ac mae'n annog dysgwyr i drafod ac ystyried sut y gallan nhw fyw bywyd mwy cynaliadwy.

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

| ADCDF | Yr Amgylchedd Naturiol | Defnydd a gwastraff | Newid yn yr hinsawdd |
|---|---|---|---|
| **CA2** | • Mae pobl yn dibynnu ar yr amgylchedd ar gyfer ynni, bwyd a defnyddiau ac adnoddau eraill | • Cymryd camau personol i ddylanwadu ar eraill er mwyn arbed ynni a lleihau defnydd<br>• Ffyrdd o leihau eu defnydd o ynni a'r defnydd o ynni gan eraill | • Yr amrywiaeth o ffyrdd o arbed yn ogystal â chynhyrchu ynni |
| **CA3** | • Sut mae gweithgarwch dynol yn newid amgylcheddau lleol a byd-eang | • Datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb dros ddatblygu cynaliadwy<br>• Gwerthfawrogi'r camau sydd eu hangen i leihau eu hôl troed ecolegol eu hunain ac i leihau gwastraff | • Gwneud penderfyniadau a newidiadau personol i fynd i'r afael â chynhesu byd-eang, fel lleihau ynni, teithio a milltiroedd bwyd |
| **CA4** | | • Sut i leihau eu heffaith amgylcheddol drwy'r cysyniad o ôl-troed ecolegol | • Cymryd cyfrifoldeb personol tuag at newid eu ffordd o fyw fel ymateb i newid yn yr hinsawdd |

## Nod

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd dysgwyr yn gallu:**

- Esbonio beth allwn ni ei wneud i fyw'n gynaliadwy
- Disgrifio pa ffyrdd o fyw'n gynaliadwy sydd bwysicaf iddyn nhw
- Deall ei bod yn bwysig byw'n gynaliadwy mewn sawl ffordd

## Cyfarpar ac adnoddau

- **Cardiau adnodd - Sut allwn ni fyw'n gynaliadwy?**

## Beth i'w wneud

Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio'n dda er mwyn cyflwyno neu atgyfnerthu sesiynau am gynaliadwyedd. Ei nod yw cael dysgwyr i feddwl am a thrafod y nifer o wahanol ffyrdd y gallwn ni fyw'n gynaliadwy.

Mae 15 o gardiau trafod yn y set sy'n disgrifio gwahanol ffyrdd y gallwn fyw'n gynaliadwy. Nid oes angen defnyddio'r holl gardiau; gellir dewis rhai penodol neu eu gadael allan i'w defnyddio y tro nesaf.

Cyflwynwch y gweithgaredd trwy ofyn i'r dysgwyr pam fod byw'n gynaliadwy yn bwysig a thrafodwch eu syniadau. Esboniwch nad oes unrhyw atebion cywir nac anghywir. Diben y gweithgaredd yw annog trafodaeth ac iddyn nhw iddyn nhw ddysgu ei bod yn bwysig byw'n gynaliadwy mewn sawl ffordd. Caniatewch amser iddyn nhw ddarllen a thrafod y cardiau.

Gellir addasu'r gweithgaredd a'i gyflawni mewn nifer o wahanol ffyrdd:

Y rhai mwyaf a'r lleiaf pwysig:

- Yn annibynnol neu mewn grwpiau bach, penderfynwch pa gerdyn yw'r ffordd bwysicaf y gallwn fyw'n gynaliadwy a pha gerdyn yw'r lleiaf pwysig.
- Gyda grwpiau mwy, rhowch gerdyn i bob disgybl. Gofynnwch i bob grŵp drefnu eu hunain gan sefyll yn ôl trefn pwysigrwydd o'r hyn maen nhw'n ei benderfynu yw'r ffordd bwysicaf y gallwn fyw yn gynaliadwy i'r lleiaf pwysig. Yna gellir cymharu llinellau grwpiau eraill, a gellir trafod tebygrwydd a gwahaniaethau barn.
- Gall y dysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau bach er mwyn dosbarthu'r cardiau gan ddefnyddio graddio diemwnt.

Ffyrdd eraill o ddidoli'r cardiau:

- Beth all y dysgwyr ei wneud eu hunain a'r hyn na allant ei wneud.
- Beth mae'r dysgwyr yn ei wneud yn yr ysgol, gartref neu ddim yn ei wneud ar hyn o bryd.
- Dewis un cerdyn sy'n bwysig iddyn nhw ac egluro pam.
- Dewis un neu fwy o gardiau sy'n dangos ffyrdd y byddan nhw'n ceisio byw'n gynaliadwy yn y dyfodol.

## Cwestiynau Allweddol

- **Sut allwn ni fyw'n gynaliadwy?**
- **Pam ei bod hi'n bwysig byw'n gynaliadwy?**
- **Beth ydych chi'n gallu ei wneud?**
- **Sut allwch chi newid er mwyn bod yn fwy cynaliadwy?**

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Llai galluog

- Tynnwch rai o'r cardiau o'r set.

### Mwy galluog

- Gall y dysgwyr feddwl am wahanol ffyrdd y gallan nhw fyw'n gynaliadwy a llunio eu cardiau eu hunain.

## Gweithgaredd dilynol/estyniad

- Creu siartiau a graffiau i ddangos sut y cafodd y cardiau eu didoli. Gellir creu siart bar dynol; gosodwch y cardiau ar y llawr a gofynnwch i'r plant sefyll mewn llinellau syth o flaen eu cerdyn dethol er mwyn creu'r 'bariau'.
- Defnyddio celf naturiol i ddangos ffordd o fod yn gynaliadwy.
- Creu cynllun gweithredu neu ddylunio poster i annog pobl i fyw'n gynaliadwy.

Gweithgareddau datblygu cynaliadwy eraill; gweler Cynlluniau gweithgaredd ar gyfer:

- Cardiau adnodd - Gêm rhestr termau datblygu cynaliadwy
- Cynllun gweithgaredd - Y cylch rheoli coetiroedd
- Cynllun gweithgaredd - Ôl-troed carbon

## Gwybodaeth ychwanegol

Nodyn gwybodaeth - Carbon

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** os gwelwch yn dda, neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government